

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 10 Tachwedd 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Nerys John	
Lena Ashley	George Smith	
Iestyn Harris	Sarah Riley	
Yasmin Khan	Gruff John	
Peter Simpson	Casi Roberts	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
1.1	<p>Etholwyd y Cyngorydd Daniel Williams fel Cadeirydd y Cyngor. Roedd pawb yn gytûn â'r penodiad.</p> <p>Derbyniwyd ymddiswyddiad Ken Brown, Pat Jones a Louise Hughes</p> <p>Roedd tri chais wedi ei dderbyn ar gyfer y seddi gwag, roedd y ceisiadau yn briodol ac yn cyflawni'r gofynion. Derbyniodd y Cyngor y ceisiadau a phenodwyd, Yasmin Khan, Casi Jones ac Aled Emyr fel aelodau'r Cyngor Cymuned.</p> <p>Ymddiheuriadau: Mair Bebb Jones.</p>	
2.0	ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig, gweler atodiad 1.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	COFNODION	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol 20fed o Hydref 2015. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.	
5.0	MATERION YN CODI	
5.1	Parc Bach Cychod – yr is-bwyllgor y prosiect i gyfarfod yn fuan yr wythnos nesaf, adroddiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod misol nesaf.	NJ,MBJ,SR
5.2	Toiledau - EITEM EITHRIEDIG.	DW
5.3	Biniau Halen - cafwyd esboniad gan Gyngor Gwynedd bod llythyr pellach i'w anfon gyda mwy o fanylder ond tebygolrwydd yw mai £78 fydd cost ail-lenwi'r binnau yn 2016/2017 ond byddant wedi eu llenwi ar ddechrau'r gaeaf.	
5.4	Ōl Geisiadau – cafwyd esboniad gan Gyngor Gwynedd.	
5.5	Cysgodfan Bws - Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â gosod cysgodfan yn Aberpwll ynghyd ac amcan bris. Trafodwyd gosod cysgodfan bws yn Aberpwll ond ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad oherwydd nid yw'r cyngor wedi	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	derbyn gwybodaeth ynglŷn â fydd angen hawl cynllunio ac oes angen i gysgodfan fod o ddeunydd naturiol oherwydd bod yr ardal yn ardal gadwraeth.	CLERC
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD	
6.1	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams y diweddaraf ar faterion y neuadd. Dywedodd bod problem tamprwydd ystafell islawr angen archwiliad. Penderfynwyd gwneud ymholiad gyda'r Capel ar gyfer defnyddio'r festri tra bydd yr archwiliad yn parhau. Y Clerc i wneud trefniadau gyda arbenigwyr tamprwydd.	CLERC
7.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL	
7.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Hydref.	
7.2	Trafodwyd penodiad archwilwyr allanol o Loegr a phenderfynwyd anfon at Lywodraeth Cymru i ofyn am reswm pam nad oedd archwilwyr o Gymru wedi eu penodi.	CLERC
8.0	GOHEBIAETH	
8.1	Arolwg nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2015 – cwblhawyd yr arolwg. Y Clerc i'w anfon ymlaen at Gyngor Gwynedd.	CLERC
8.2	Trwyddedu Cyngor Gwynedd – Y Cynghorydd Peter Simpson i edrych dros y ddogfen ac anfon ymlaen at y Clerc os oedd angen gweithredu.	PJS/CLERC
9.0	ADRODDIAD Y CLOC	
9.1	Dim i'w adrodd y cais yn parhau gyda Cadw.	
10.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
10.1	C15/1052/20/LL - Codi estyniad llawr cyntaf gyda balconi uwchben ynghyd a newid defnydd cegin yr eiddo presennol ar gyfer defnydd busnes fel siop - Pant Erys, Beach Road, Y Felinheli, LL56 4JF - DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.2	C15/1122/20/LL - Cais ôl-weithredol i godi balcony yn gefn yr eiddo ynghyd a ffens - 1 Tai'r Felin, Hen Gei Felinheli, LL56 4JF - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC
11.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dim i'w adrodd	
12.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
	Diolch i'r aelodau a fuodd yn tacluso safle Moriah a diolch hefyd i Mr Dave White am ei waith.	
13.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
13.1	Mae angen symud ymlaen a gosod yr	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	hysbysfyrddau o'r cylchdeithiau o amgylch y pentref drwy ddefnyddio'r llwybrau cyhoeddus. Y Clerc i gysylltu â Gareth Roberts.	
13.2	Mae fandaliaeth wedi cymryd lle ar rai o'r cysgodfannau. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â'r Heddwas Non Edwards ynglŷn â hyn.	CLERC
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Y mater yn derbyn sylw'r Cyngor Sir drwy eu cais at Lywodraeth Cymru am gyllid i wneud gwaith cynnal i wal yr arfordir.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:30 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad:

Atodiad 1

Adroddiad Cynghorydd Tachwedd 2015

Hoffwn atgoffa pawb i gymryd rhan yn ymgynghoriad Her Gwynedd ynglŷn â'r toriadau y mae Cyngor Gwynedd yn cael eu gorfodi i wneud oherwydd polisïau ariannol y Torïaid. Gellir llenwi holiadur ar lein

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Her-Gwynedd.aspx>

neu fynd i unrhyw lyfrgell i nol copi papur. Mae'r Cyngor yn gofyn i bobl Gwynedd pa wasanaethau fuaswn nhw yn ddiogelu a pha rai sydd yn llai pwysig. Y syniad yw ceisio cael barn y cyhoedd cyn i'r cynghorwyr orfod gwneud penderfyniadau anodd iawn yn y Gwanwyn.

Mae'r Grid Cenedlaethol yn cynnal ail ymgynghoriad am y Peilonau. Manylion i gyd ar www.cysylltiadgogleddcymru neu yn y Ganolfan Feddygol. Gall olygu mwy o beilonau yn ardal Nant Y Garth <http://www.cysylltiadgogleddcymru.com/>

Cyfarfod gan y Grid : Sadwrn, Tachwedd 21, Neuadd Goffa Y Felinheli 10-4 *

(Adroddiad isod)

- Llwybr Rowen: mae Cyngor Gwynedd yn cyfarfod un o'r tîrfeddianwyr i drafod symud ychydig ar ble mae'r llwybr ar ei dir gyda'r bwriad o allu cychwyn ar y gwaith i wella'r llwybr. Roedden nhw wedi bwriadu gohirio'r gwaith ond llwyddais i'w perswadio fod hwn yn bwysig i'r pentref.
- Llwybr yr arfordir: mae bron pawb o'r tîrfeddianwyr wedi arwyddo cytundebau erbyn hyn fydd yn galluogi'r Cyngor Sir i greu darn newydd o lwybr arfordir Cymru drwy'r Felinheli , y Marina a'r Faenol yn y gwanwyn.
- Parcio : Fel mae pawb yn gwybod, mae prinder mannau parcio yn parhau i fod yn broblem fawr yn Felin. Mae'r trafodaethau gyda'r Eglwys yn parhau a'r syniad o greu maes parcio yng nghefn Neuadd yr Eglwys yn cael ei ystyried. Mae Pwyllgor y Plwyf wedi gofyn i'r pensaer Maredudd ap Iestyn am arolwg mesuredig a dyluniadau cychwynnol ar gyfer y prosiect o foderneiddio'r neuadd gan gynnwys yr elfen parcio. Gallai hynny ychwanegu at y llefydd parcio cymunedol sy'n cael eu darparu yn barod gan y Cyngor Cymuned yn eu maes parcio tu ôl i Stryd Bangor. Da gweld hefyd fod perchnogion preifat yn gwneud gwell defnydd o dir preifat tu ôl i Stryd Bangor ar gyfer parcio.
- Casglu at y Ffoaduriaid: Diolch i bawb am eu haelioni tra buom yn casglu eitemau yn Y Felin Sgwrsio cyn eu cludo i Fethesda a Chapel Caersalem Caernarfon ar gyfer eu hanfon mlaen i Calais. Roedd yr ymateb yn wych. Rwyf yn aelod o Ffrindiau Ffoaduriaid Caernarfon fu'n trefnu'r cylch o bobol o gwmpas y Castell mewn gweithred symbolaidd o gefnogaeth. Roedd nifer o bobl Felin yno.
- Llwybr Penrallt : Hyfryd yw gweld y gwaith sydd wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd i wella cyflwr llwybr Penrallt sy'n cychwyn ar waelod allt Pen y Bryn. Dyma lwybr coediog braf ble mae bwtais y gog yn un carped glas yn y gwanwyn. Mae'r llwybr wedi ei adnewyddu mewn dau le sy'n ei gwneud hi'n hawdd iawn i fynd am dro yma bellach.
- Ffair Grefftau Tachwedd 24 Neuadd yr Eglwys 6.30 pm

***DIM PEILONAU i BENTIR**

Gan Y Cyngorydd Sian Gwenllian, Y Felinheli, aelod o'r grŵp ymgyrchu DIM PEILONAU

Mae'r ymgyrch i beidio cael peilonau ar draws Y Fenai wedi ei hennill gyda'r Grid Cenedlaethol yn dweud y byddan nhw " yn rhoi'r cysylltiad o dan y ddaear."

Ond mae'r Grid yn dweud y byddan nhw'n trosglwyddo'r trydan ar beilonau o 'gompownd' ar y tir mawr i'r is-orsaf yn Pentir. Mae nhw yn bwriadu adeiladu yr hyn maen nhw'n ei alw yn 'compownd pen selio', tuag erw o faint yng nghyffiniau Y Felinheli / Bangor er mwyn newid o gebl tan ddaear i linell uwch ben ar ôl dod o dan Y Fenai.

Mae nhw yn ymgynghori ar hyn tan Rhagfyr 16.

Ond pam na all y Grid roi'r ceblau dan y ddaear yr holl ffordd o'r Fenai i Bentir gan osgoi codi yr un peilon newydd yn yr ardal?

Nid yw hyn yn opsiwn sy'n cael ei gynnig ond mae'n opsiwn fyddai'n cael ei ffafrio gan bobl leol ac mae modd i chi ddweud hynny yn yr ymgynghoriad.

Bydd yr union leoliad sy'n cael ei awgrymu ar gyfer y compownd a llwybr y peilonau o ddiddordeb mawr i bobl sy'n byw yn ardal Nant y Garth ac yn ward Pentir ger Ffordd Caernarfon a'r tiroedd tuag at is-orsaf Pentir ac awgrymaf yn gryf eich bod yn astudio'r dogfennau yn fanwl.

Mae'r Grid yn cynnig tri opsiwn ar gyfer lleoliad y compownd a thri opsiwn ar gyfer y llwybr o beilonau ac fe gewch y manylion ar eu gwefan

<http://www.cysylltiadgogleddcymru.com/> neu yn Llyfrgell Bangor a Chanolfan Iechyd Y Felinheli.

Ond wrth gwrs, does dim rhaid derbyn yr un o'r opsiynau sy'n cael eu hargymell!

Gallwch wrthod pob opsiwn a dadlau dros roi'r ceblau dan y mor o Wylfa i Lannau Dyfrdwy, a wedyn fyddai dim angen rhoi ceblau dan y ddaear ar draws Môn nag yng Ngwynedd. Dim peilonau!

Cyfarfod gan y Grid : Sadwrn, Tachwedd 21, Neuadd Goffa Y Felinheli 10-4